| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **27 Chwefor 2002, 11.30 to 3.30pm** |
| **Lleoliad** | **Neuadd y Dref, Y Rhyl** |
| **Teitl** | **Ysgol y Gader** |

Annwyl Ms Westlake,

Mewn ymateb i'ch cais am dystiolaeth:

(i) Rydym yn hapus iawn efo gwaith y doctoriaid lleol, y nyrsys cymunedol ac ymateb ysbyty gymunedol Dolgellau i unrhyw fater a ddaw i'n sylw. Mae un o'r doctoriaid lleol weithiau yn rhoi gwybodaeth berthnasol i ni neu yn holi am wybodaeth - ac rydym yn hapus efo'r trefniant hwn.

(ii) Nid ydym yn hollol hapus fod diagnosis ac enwi cynnar yn digwydd o anghenion iechyd arbennig. Ysgol Uwchradd ydym ni, ond rydym wedi cyfeirio sawl achos i sylw arbenigwyr yn y maes iechyd a ddylai fod wedi cael eu hadnabod a'u henwi pan oedd y plentyn llawer yn iau. Efallai nad oes gan athrawon Cynradd hyder i gyfeirio plant am sylw meddygol, ond teimlwn bod angen i'r Gwasanaeth Iechyd hyrwyddo cysylltiadau ag ysgolion er mwyn sicrhau fod arsylwadau yn cael eu gwnesud yn broffesiynol a chyfeirio pellach yn digwydd lle bo angen.

- Yn benedol, problemau clyw a llafaredd sydd wedi eu cyfeirio gennym ar ôl i blant gyrraed yr ysgol uwchradd - ac yn anffodus rydym wedi cael anhawster i gael sylw **buan** i'r plant hyn. Weithiau nid oes sylw meddygol wedi ei roi o **gwbl**. (Wrth gwrs, gwyddom am anhawtser cael therapyddion iaith, ond mae'n annheg bod plentyn yn cael ei anwybyddu yn llwyr.)
- Rydym wedi cael trafferthion mawr i gael sylw i blant sydd yn dioddef o dyspraxia hefyd, er bod y meddyg lleol wedi cyfeirio'r plant yma i sylw arbenigwr a therapydd.
- Mae'n anodd iawn cael ail-asesiad o blant sydd wedi cael eu hadnabod efo ADHD ac sydd i fod i gymryd Ritalin. Mae'n hyd yn oed yn anoddach cael sylw i blentyn lle mae yna amheuaeth o ADHD. Mae'n amhosib os oses problemau dysgu hefyd - dywedir yr adeg honno na ellir gwneud asesiad.
- Yn affodus, mae gennym rai plant efo problemau emosiynol dirfawr, ac mae'n anodd iawn cael sylw yn y lle cyntaf, new sylw pellach os ydynt eisoes ar y rhestr CAMs e.e. yn ddiweddar bu raid i un plentyn deimlo fod rhaid iddi gymryd potel o datbledi yn yr ysgol er mwyn cael y sylw oedd ei hangen; gwnaeth yr Heddlu ddisgrifio merch arall fel un "who will probably be sectioned this afternoon" yn dilyn ymddygiad allan o bob reswm: mae'n dal yn yr ysgol ac heb fynd yn bellach na'r meddyg teuluol. (Gallwn fod yn fwy penodol pe dymunech.)

2. Mae rhieni yn aml yn trafod materion meddygol efo ni yn yr ysgol - ond mater o ddeweis personal ydyw hwn. Ar y llaw arall, rydym yn gorfod dibynnu ar yr hyn ddywed rhieni am gyflwr meddygol y plentyn - does yna neb arall sydd yn rhoi gwybod i ni.

3. Mae gennym achosion penodol a diweddar sydd yn dangos diffygion cyd-dynnau diffygion mewn dilyniant a bylchau mewn gwybodaeth mewn achosion lle mae amryw o asiantaethau yn ymwneud for plant (yn cynnwys plant sydd ar gofrestr risg).

4. Mae'r meddygon teulu yn ymateb ar unawith pan y bydd yn mater o frys e.e. meddyginiaeth atal-cenhedlu brys. Nid ydyw'n bosib cael meddyginiaeth (e.e. pwmp asthma) i blentyn os nad ydyw wedi dod ag un i'r ysgol, neu os nad ydyw'r teulu wedi gofal fod ganddynt gyflenwad yn y ty.

5. (Dim I'w adrodd)

6. Mae'r sefyllfa hon yn dderbyniol.

7. Yn bedant, NA

Yn gywir

**Haydn Davies**
**Prifathro**